Cyfarfod â'r rhanddeiliaid yn y cam cyntaf - arweiniad ar gyfer yr awdurdod lleol

Yn ystod yr wythnos ar leoliad i wneud gwaith maes yr adolygiad eang, ceir cyfle i gynnal uchafswm o chwe chyfarfod grwp gyda'r rhanddeiliaid. Mae'n debygol iawn y bydd y canlynol yn bresennol:

- aelodau etholedig ac uwch reolwyr;
- tîm rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol;
- cyrff sy'n bartneriaid;
- grwp craffu ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Bwriad y cyfarfodydd yw galluogi'r grwpiau hyn i amlinellu'n fras, yn gynnar yn y broses adolygu, y pethau y maent hwy yn eu hystyried yn faterion allweddol i'r gwasanaethau cymdeithasol . Fel arfer bydd dau adolygydd yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd yr asesydd lleyg yn penderfynu, ar y cyd â'r adolygydd arweiniol, i ba raddau y byddant hwy yn cymryd rhan, er y byddant, fel arfer, yn bresennol yn y cyfarfod gyda'r grwp craffu ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfodydd yn derbyn y taflenni a'r canllawiau perthnasol:

- *Crynodeb ar gyfer aelodau etholedig*;
- *Gwybodaeth am gydadolygiadau* (ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr);
- *Gwybodaeth am gydadolygiadau ar gyfer staff gwasanaethau cymdeithasol*;
- *Gwybodaeth am gydadolygiadau ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid*;
- *Arweiniad ar gyfer y grwp craffu ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.*

Os oes cyfle i roi brîff i aelodau'r gwahanol grwpiau cyn y cyfarfod, mae'r adrannau o'r llawlyfr sy'n delio â barnau adolygiadau, y broses gydadolygu a'r disgrifiad o'r cam pryd y cynhelir yr adolygiad eang yn hynod o berthnasol.

Os oes angen, gall yr adolygydd arweiniol ddarparu rhestr o eitemau posibl i'w cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd gyda'r cyrff sy'n bartneriaid, a'r grwp cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Bydd yr adolygwyr wedi paratoi cwestiynau ac efallai byddant eisiau cadarnhau gwybodaeth y maent eisoes wedi'i dderbyn. Gall y grwpiau rhanddeiliaid anfon amlinelliad byr o unrhyw fater yr hoffent godi ymlaen llaw.

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn darparu rhestr o bobl yr ydych chi yn disgwyl iddynt fynychu'r cyfarfod. Sicrhewch nad oes gormod o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd - rhyw wyth i ddeuddeg person sy'n ddelfrydol - ond yr ydym yn deall efallai y bydd cyfarfodydd gyda grwpiau a ffurfiwyd eisoes yn fwy. Fel arfer bydd y cyfarfodydd yn parhau am ryw 1 neu 2 awr.